

Annwyl Gadeirydd

Craffu ar Covid19 – effaith ar blant a phobl ifanc, gan gynnwys myfyrwyr mewn addysg bellach ac uwch

Hoffwn gyflwyno ymateb cychwynnol ar ran y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg) i gais y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am wybodaeth ynghylch sut mae pandemig y COVID-19 yn effeithio ar fywyd plant a phobl ifanc (gan gynnwys myfyrwyr mewn addysg bellach ac uwch).

Sefydlwyd y Coleg yn 2011. Y Coleg sy'n arwain datblygiad addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector ôl-orfodol yng Nghymru. Mae'r Coleg yn cyflawni hyn drwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth â phrifysgolion, sefydliadau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau er mwyn adeiladu cyfundrefn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg cynhwysol o'r radd flaenaf.

Bydd y Coleg yn canolbwyntio ein hymateb ar y meysydd a ganlyn –

- Addysg uwch ac addysg bellach ac effaith ar newidiadau i gyrsgiau.
- Darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn y sectorau ôl-orfodol.

Rydym yn ymwybodol o'r heriau sylweddol iawn sy'n wynebu'r sectorau addysg bellach, prentisiaethau ac yn benodol y sector addysg uwch yn sgil yr argyfwng. Mae'r sefydliadau wedi gorfod ymateb ac addasu mewn amser byr iawn a hynny mewn cyfnod o ansicrwydd sylweddol ac mae'r pryderon difrifol ynglŷn ag effeithiau hir-dymor y pandemig i'r sectorau yn amlwg. Mae hyn yn amrywio o heriau penodol yn sgil y farchnad myfyrwyr i brifysgolion i'r pryderon am brentisiaethau gyda chyflogwyr sy'n dilyn canllawiau ymbellhau cymdeithasol.

Mae'r Coleg wedi datblygu cynllun mewnol sy'n amlinellu ein hymateb ni i'r pandemig a sut yr effeithir ar ein rhaglen waith. Fel rhan o'r cynllun hwn, rydym wedi ymrwymo i'r egwyddorion canlynol:

- Byddwn yn ymateb i'r argyfwng mewn dull gofalgar drwy ofalu am gymuned y Coleg sy'n cynnwys ein staff canolog, y myfyrwyr a dysgwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, y darlithwyr a staff eraill sy'n cyflwyno addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, a'n partneriaid allanol.
- Byddwn yn ceisio, ble bynnag bo hynny'n bosib, sicrhau bod addysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn parhau i gael ei gynnal, ym mha bynnag gyd-destun y bo hynny.
- Byddwn yn adnabod unrhyw gyfleoedd sy'n codi i ddatblygu atebion arloesol yn y cyfnod presennol i gefnogi a datblygu addysgu Cymraeg a dwyieithog yn y tymor byr ac yn y tymor hir.

Dymuna'r Coleg gyflwyno tri phrif bwynt i'r Pwyllgor ystyried wrth iddynt graffu ar effaith Covid-19. Cyflwynir y pwyntiau hyn yng nghyd-destun yr egwyddorion a amlinellwyd uchod:

1. Y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn y tymor byr

Wrth i sefydliadau addysg a hyfforddiant symud at ddulliau addysgu amgen, megis dysgu o bell ac ar-lein, dylid rhoi ystyriaeth i'r ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg a dwyieithog a gynigir i ddysgwyr, hyfforddeion a myfyrwyr. Ble fo'n bosib, dylid gwneud pob ymgais posib i sicrhau nad ydy'r argyfwng presennol yn cael effaith niweidiol ar y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog a gynigir eisoes. Ymhellach, hoffem weld colegau a phrifysgolion yn rhoi cynlluniau yn eu lle i sicrhau fod y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog a gynigir i fyfyrwyr a dysgwyr o fis Medi 2020 ymlaen yn parhau, ac yn unol â'u cynlluniau adrannol gwreiddiol. Ymhellach credwn fod lle i adnabod cyfleoedd i helaethu darpariaeth Gymraeg drwy wneud defnydd arloesol o ddulliau dysgu cyfunol.

Mae'r Coleg wrthi'n cynnal cyfarfodydd unigol gyda'r sefydliadau perthnasol ar draws y sector ôl-orfodol er mwyn sefydlu trosolwg o'r sefyllfa ac i ddeall yn well unrhyw effaith ar y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog. Byddwn mewn sefyllfa i rannu'n hargraffiadau ac unrhyw argymhellion perthnasol gyda'r Pwyllgor pan fydd y gwaith hwn wedi ei gwblhau.

2. Cynllunio i gynnal ac ymestyn y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn y tymor canol a'r hir-dymor

Wrth i'r misoedd fynd yn eu blaen ac wrth i sefydliadau fynd ati i ddatblygu ymatebion tymor canol a hir-dymor i'r pandemig, hyderwn y bydd cynllunio ac ymestyn darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn parhau i dderbyn sylw teg, ac y bydd cyrff yn awyddus i fanteisio ar unrhyw gyfleoedd newydd sy'n codi yn sgil yr argyfwng i ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach. Mae hyn yn berthnasol ar draws y sector ôl-orfodol ond yn hollbwysig yn y sector addysg bellach, ble mae data diweddar y Llywodraeth yn dangos cyn lleied o ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog a gynigir i ddysgwyr mewn colegau ar draws Cymru a'r cynnydd sydd angen os am wireddu amcanion Cynllun Gweithredu'r Llywodraeth ar gyfer Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Gymraeg.

3. Cynlluniau ymatebol ar draws y Llywodraeth ac amcanion Cymraeg 2050

Mae'n hollbwysig yn y sefyllfa bresennol nad yw'r cynnydd a'r momentwm a welwyd dros y blynyddoedd diweddar ar draws Llywodraeth Cymru o ganlyniad i strategaeth Cymraeg 2050, ac yn benodol i ddatblygiad addysg Gymraeg, yn cael ei golli.

Rydym yn croesawu'r cyfle diweddar i'r Coleg gydweithio gyda'r Llywodraeth ac ystod o gyrff eraill ar brosiect pontio ar gyfer disgyblion blwyddyn 13 er mwyn cefnogi eu dilyniant hwy i'r brifysgol. Roedd y Coleg yn gyfrifol am gydlynu adnoddau Cymraeg addas ac roedd yn enghraifft dda o'r Gymraeg yn cael ystyriaeth ganolog mewn cynllun ymateb i Covid-19.

Gofynnwn i'r Pwyllgor graffu ar ymatebion adrannau ar draws y Llywodraeth i'r argyfwng er mwyn sicrhau bod sylw teg yn parhau i gael ei roi i amcanion Cymraeg 2050. Rhaid i adrannau fanteisio ar arbenigedd is-adran y Gymraeg a chyrrff allanol megis y Coleg Cymraeg wrth baratoi eu cynlluniau wrth ymateb i'r pandemig.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am y cyfle i gyflwyno ymateb cychwynol y Coleg Cymraeg i'r ymgynghoriad pwysig hwn. Dymunwn yn dda i chi gyda'r ymchwiliad a byddwn yn cysylltu i rannu canfyddiadau ein asesiad ni o effaith y pandemig ar y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn ein sefydliadau partner unwaith bydd y gwaith hwn wedi ei gwblhau.